DWP

Department for Work and Pensions

Adran Gwaith a Phensiynau

Pensiwn y wladwriaeth ar gyfer y 21ain ganrif

Crynodeb Gweithredol

(h) Hawlfraint y Goron 2011

Cyhoeddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

978-1-84947-585-3

www.dwp.gov.uk

Cynnwys

Rhagair 4

Crynodeb Gweithredol 5

Rhagair

Mae'n iawn y gofynnir i bobl gymryd cyfrifoldeb am eu hymddeoliad drwy gynilo wrth weithio. Ond i wneud hynny rydym angen pensiwn y wladwriaeth syml a theg sy'n gweithredu fel sylfaen i adeiladu incwm ymddeoliad ac yn gwobrwyo pobl am gymryd cyfrifoldeb.

Rydym wedi rhoi mwy o ddiogelwch ar gyfer pensiynwyr drwy adfer y cyswllt enillon a chyflwyno'r warant drifflig i ddiogelu gwerth Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol. Fodd bynnag, rydym angen meddwl am bensiynwyr y dyfodol, fydd yn byw ac yn gweithio'n hirach, ac yn llawer llai tebygol o gael pensiynau cyflog terfynol hael. Bydd ymrestru awtomatig i mewn i bensiynau gweithle gyda chyfraniadau isafswm cyflogwr o flwyddyn nesaf yn helpu cenedlaethau'r dyfodol i adeiladu pensiwn preifat cynilo. Ond mae pensiwn y wladwriaeth angen gwneud ei ran drwy roi incwm sylfaenol y bydd pobl yn gwybod y byddant yn gallu dibynnu arno – fel y gallant wneud penderfyniadau ynglŷn â faint mwy y byddant angen i gynilo tuag at eu hymddeoliad.

Mae cymhlethdod pensiwn y wladwriaeth ar hyn o bryd yn brif rwystr i gynilo. Mae'n golygu mai ychydig o bobl sydd gyda syniad eglur faint fydd gwerth eu pensiwn y wladwriaeth pan fyddant yn ymddeol. Nid yn unig hynny, nid yw'r system bresennol yn cefnogi cynilo, oherwydd maint o ddibynnu ar y prawf modd ac mae'n golygu na all pobl fod yn siŵr y byddant yn cael budd o'r cynilo maent yn eu rhoi ar un ochr.

Gan fod rhagamcaniadau disgwyliad einioes yn parhau i gael ei adolygu tuag i fyny, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i sicrhau fod system pensiwn yn gynaliadwy a bod costau hir oes sy'n cynyddu yn cael ei rannu'n deg rhwng cenedlaethau. Rydym yn barod wedi dod a darpariaethau ymlaen i gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66 ac mae'r papur hwn yn chwilio am farn ar gyflwyno dulliau mwy awtomatig i ystyried newidiadau yn y dyfodol.

Rydym eisiau cefnogi pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb ar gyfer eu hymddeoliad. Ni allwn gyflawni'r gwelediad hwnnw heb wneud yn siŵr fod sylfaen y cynilo hwnnw'n hawdd i'w ddeall, teg ac yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir.

Drwy gydol y papur ymgynghoriad hwn rwy'n edrych am farn a chyfraniadau i drafod gan rywun sydd â diddordeb: aelodau'r cyhoedd, cyflogwyr a darparwyr pensiwn. Dros y misoedd nesaf byddaf yn mynd allan ac yn siarad â chymaint o bobl ac yn bosibl ynglŷn â beth maent yn eu meddwl sut y dylai system pensiwn y wladwriaeth fod yn y dyfodol. Edrychaf ymlaen at glywed gennych.



Steve Webb AS
Ysgrifennydd Gwladol i Bensiynau

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Llywodraeth hon yn cymryd adolygiad radical ymlaen i symleiddio system les a sicrhau fod gweithio'n talu drwy gyflwyno'r Credyd Cyffredinol. Mae gennym ddiddordeb nawr mewn edrych ar opsiynau ar gyfer dosbarthu pensiwn y wladwriaeth fwy syml a thecach sy'n gwobrwyo'r rhai sy'n gwneud y peth iawn ac yn cynilo tuag at eu hymddeoliad ac sy'n gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.

Rydym yn ymgynghori ar:

- dau opsiwn eang ar gyfer adolygu pensiwn y wladwriaeth sy'n cefnogi gwell cynilo tuag at ymddeol; ag
- y peirianwaith mwyaf priodol i benderfynu newidiadau yn y dyfodol i oedran pensiwn y wladwriaeth.

Y cyd-destun ar gyfer adolygu

1. Mae'r Llywodraeth hon yn ymrwymedig i adolygu sylfaenol o'r system budd-dal i sicrhau ei bod yn helpu i gefnogi pobl i symud i waith ac i gynilo tuag at eu hymddeoliad, wrth gefnogi'r mwyaf bregus mewn ffordd gynaliadwy ariannol.

2. Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi'n barod cynlluniau i drawsnewid Budd-daliadau oedran gweithio drwy Gredyd Cyffredinol sy'n edrych i ateb diffyg cymhelliad gwaith yn y system ac felly mynd i'r afael â gwraidd achosion tlodi a dibynnu ar les.

3. Yn nhermau adolygu pensiwn, mae gennym bedair o egwyddorion arweiniol eglur:

   - **cyfrifoldeb personol** – yn galluogi unigolion i gymryd cyfrifoldeb i gyfarfod eu dyheadau ymddeol mewn cyd-destun cynnydd hir oes;
   - **tegwch** – sicrhau fod lefel digonol o gefnogaeth i'r mwyaf bregus,sicrhau y dylai pawb gyda chofnod cyfraniad llawn fod â hawl i bensiwn y wladwriaeth uwchben y lefel safonol o gefnogaeth prawf modd[1], a sicrhau bod holl grwpiau'n cael eu trin yn deg;
   - **symlrwydd** – symleiddio pensiwn y wladwriaeth fel ei fod yn haws i bobl gynllunio a chynilo tuag at eu hymddeoliad; a
   - **fforddiadwy a chynaliadwy** – gan fod pwysau tymor hirach ar arian cyhoeddus, mae'n rhaid i adolygu pensiwn y wladwriaeth fod yn fforddiadwy. Mae'n rhaid i unrhyw opsiynau am adolygu fod yn ddiduedd o ran cost ymhob blwyddyn i osgoi rhoi baich anghynaladwy ar dreth dalwyr y dyfodol. Bydd unrhyw gynigion yn destun i gadarnhad, yn cynnwys ar fod yn fforddiadwy, ac yn adlewyrchu rhagamcaniadau wedi eu gosod allan yn Adroddiad Cynaliadwy Cyllidol sydd ar ei ffordd gan y Swyddfa am Gyfrifoldeb Cyllideb. Yn Ychwanegol, dylai newid i oedran Pensiwn y Wladwriaeth sicrhau fod y system yn gynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol.

4. Rydym wedi dechrau dosbarthu yn erbyn yr egwyddorion hyn yn barod. Ein blaenoriaeth gyntaf oedd sicrhau lefelau teg o gefnogaeth i bensiynwyr presennol drwy gyflwyniad y warant drifflig ac ymrwymiad i gadw mesurau fel prescrypsiynau am ddim a thrwyddedau Teledu i rai dros 75.

5. Rydym hefyd wedi dechrau'r dasg o adolygu'r system i bensiynwyr y dyfodol, i gefnogi cyfrifoldeb personol a chynaliadwy ariannol. Yn barod rydym wedi:

   - Gweithredu i sicrhau y bydd gan fwy o bobl y cyfle i gynilo tuag at eu hymddeoliad drwy gadarnhau bydd cofrestru awtomatig, gyda Cyfraniad cyflogwr, yn cael ei gyflwyno ar gyfer pensiynau gweithle o 2012;
   - addasu'r amserlen i godi oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gynorthwyo bod yn gynaliadwy; a
   - sefydlu cynlluniau i dynnu i ffwrdd oedran ymddeol gwreiddiol i alluogi pobl hŷn i barhau i weithio os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

6. Bydd cofrestru awtomatig ond yn llwyddo os bydd gweithwyr heddiw yn teimlo'n hyderus y bydd o werth iddynt gynilo ac os byddant yn deall faint byddant angen cynilo i ariannu eu dyheadau ar gyfer ymddeol.

7. Rydym yn credu y bydd adolygu pellach ei angen os yw'r Llywodraeth yn mynd i gyfarfod ei holl egwyddorion. Yn arbennig:

   - Dim ond os yw gweithwyr yn teimlo y byddant yn cael eu gwobrwyo am wneud y peth iawn mae cyfrifoldeb personol yn bosibl. Ond mae maint y ddibyniaeth ar brawf modd yn y system bresennol yn golygu, i lawer, nid yw cymhelliad i gynilo'n eglur. Ar hyn o bryd, mae bron i hanner o bensiynwyr yn gymwys i Gredyd Pensiwn prawf modd i ychwanegu at incwm pensiwn y wladwriaeth.

[1] Diffinnir hyn fel lefel o incwm wedi ei ddarparu gan warant lleiafswm incwm Credyd Pensiwn sydd yn 2010–2011 yn ychwanegu at incwm pensiynwyr i £132.60 yr wythnos.

- Mae cymhlethdod sylweddol ac ansicrwydd yn y system. Mae llawer yn ansicr faint fydd gwerth eu pension y wladwriaeth pan fyddant yn ymddeol. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i bobl gynllunio a chynilo tuag at eu hymddeoliad. Mewn arolwg yr Adran Gwaith a Phensiynau cytunodd 71 y cant o bobl fod 'pensiynau yn edrych mor gymhleth na allaf ddeall yn iawn beth yw'r peth gorau i wneud.'[2]
- Mae achosion tegwch sylweddol o hyd – yn arbennig, grwpiau fel merched a'r rhai ar gyflogau isel yn tueddu i gael pensiynau'r wladwriaeth salach.
- Mae bod yn gynaliadwy yn bryder o hyd. Mae disgwyliad einioes yn y DU wedi cyrraedd lefelau record ac mae'n amcanol i barhau i gynyddu. Yn 1981, roedd dyn 65 oed cyffredin yn debygol o fyw am 14 blynedd arall, heddiw mae'n 21 blynedd. Fel mae amcan hir oes yn parhau i gynyddu, mae gan lywodraeth gyfrifoldeb i sicrhau fod costau o hir oes sy'n cynyddu yn cael ei rannu'n deg rhwng cenedlaethau.
- Tra'r ydym yn byw'n hirach mae llai yn cynilo ar gyfer eu hymddeoliad. Ar y cyfan rhwng 1997 2010 aeth nifer y swyddi yn y sector breifat gyda darpariaeth pensiwn noddedig cyflogwr i lawr o 46 y cant i 36 y cant[3]. Mae'r Llywodraeth yn cyflwyno cofrestru awtomatig i gynlluniau pensiwn gweithle o 2012 i daclo tan gynilo.

8. Mae Pennod 1 yn ystyried y system bensiwn presennol yn fwy manwl yn cynnwys y pryderon allweddol sydd wedi eu hamlygu os bydd yn cael ei adael heb ei adolygu ar gyfer pensiynau'r dyfodol.

9. Mae'r Llywodraeth yn credu, yng ngolwg y pryderon hyn, ei bod yn angenrheidiol i ystyried adolygiadau pellach i'r system pensiynau. Yn arbennig rydym yn ymgynghori ar:

- Adolygiadau i bensiwn y wladwriaeth i gefnogi pobl yn well i gynilo tuag at eu hymddeoliad; a
- Y peirianwaith mwyaf addas i benderfynu newidiadau yn y dyfodol i oedran Pensiwn y Wladwriaeth i gefnogi bod yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Adolygu pensiwn y wladwriaeth: cyfradd unffurf gynt neu bensiwn rhenc sengl

10. Mae'r Llywodraeth yn credu ei bod yn angenrheidiol i adolygu pensiwn y wladwriaeth ar gyfer pensiynwyr y dyfodol fel ei bod yn darparu sylfaen gwell i gynilo. Mae'r papur hwn yn edrych ar farn ar ddau opsiwn eang i adolygu i ddosbarthu pensiwn y wladwriaeth cyfraniad cyfradd unffurf syml sy'n codi'r mwyafrif o bensiynwyr uwchben y modd prawf safonol.

- **Opsiwn 1:** cyflymu adolygiadau presennol fel bod pensiwn y wladwriaeth yn datblygu i strwythur unffurf dwy renc.
- **Opsiwn 2:** mwy o adolygu radical i bensiwn unffurf rhenc sengl wedi ei osod uwchben lefel Credyd Pensiwn gwarant lleiafswm safonol.

11. Mae Pennod 2 yn gosod allan yr opsiynau hyn yn fwy manwl ac yn asesu'r ddau opsiwn yn erbyn egwyddorion y Llywodraeth am adolygu.

[2] Clery, E. Humphrey, A a Bourne, T (2010) *Attitudes to Pensions: Arolwg 2009*. Adroddiad ymchwil Adran Gwaith a Phensiynau 701.
[3] Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, (2010) *The Annual Survey of Hours and Earnings 2010*, Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol.

Opsiwn 1: Cyfradd unffurf gynt

12. Ar hyn o bryd mae Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol yn daliad cyfradd unffurf sy'n werth £97.65 yr wythnos ac mae Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn rhannol gyfradd unffurf ac yn rhannol gysylltiedig ag enillion, fel bod enillwyr uwch yn derbyn pensiwn y wladwriaeth uwch. Byddai Opsiwn 1 yn cyflymu cam o adolygiadau presennol fel bod Ail Bensiwn y Wladwriaeth yn mynd yn gyfradd unffurf erbyn 2020 yn lle yn gynnar yn y 2030au. Byddai hyn yn rhoi syniad mwy eglur i bobl o'r pensiwn y wladwriaeth y buasent yn ei gael mewn ymddeoliad gan y buasent yn derbyn swm penodol o bensiwn am bob blwyddyn gymhwyso. Ar ddiwedd y trawsnewid, byddai'r rhai hynny i gyd gyda chofnod cyfraniad llawn, er enghraifft 30 blwyddyn gymhwyso, yn adeiladu'r un fath o bensiwn y wladwriaeth, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn £140 yr wythnos, er ei fod mewn dwy renc.

13. Byddai'n bosibl mynd ymhellach drwy sicrhau fod holl enillwyr yn adeiladu'r un pensiwn, yn rhoi gwell cyfuniad o reolau manwl hawliad rhwng Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth, a thrwy ddefnyddio'r un cynnydd i'r ddau bensiwn pan delir. Byddai hyn yn symleiddio'r system ymhellach ac yn cynyddu'r nifer o bobl sy'n derbyn y pensiwn llawn. Byddai union werth o'r pensiwn unffurf cyfunol hwn angen cael ei osod ar lefel sy'n cyfarfod yr egwyddor gynaliadwy. Byddai Opsiwn 1 eithrio yn parhau i aelodau o gynlluniau Budd-dal Diffiniedig.

Opsiwn 2: Rhenc sengl

14. Byddai Opsiwn 2 yn ddull mwy radical i adolygu pensiwn y wladwriaeth, yn cyfuno Pensiwn y Wladwriaeth sylfaenol ac Ail Bensiwn y Wladwriaeth i mewn i un pensiwn rhenc sengl. Byddai pensiynwyr y dyfodol gydag o leiaf 30 blwyddyn cymhwyso yn derbyn yr un pensiwn cyfradd unffurf a amcangyfrifir yn bresennol yn £140 yr wythnos – gyda'r taliad hwn yn cael ei osod uwchben y lefel sylfaenol o gymorth a ddarperir gan Gredyd Pensiwn.

15. O dan yr opsiwn hwn, byddai eithro o gynlluniau Budd-dal Diffiniedig yn dod i ben. Ynddo'i hun gallai hyn symleiddio system dreth bersonol yn y diwedd. Byddai'r cymhlethdod yn gysylltiedig â chontractio allan, fodd bynnag, yn parhau yn ystod y trawsnewid i'r pensiwn rhenc sengl.

16. Gallai'r ddau opsiwn hon gael eu cynllunio i gyfarfod egwyddor cost niwtral, ac yn gallu cael ei ddosbarthu o fewn gwariant rhagolwg ar y pensiwn y wladwriaeth ar hyn o bryd. Mae Opsiwn 1 yn esblygiad o'r system bresennol sydd yn dod a newidiadau ymlaen sydd wedi cael eu deddfu'n barod. O dan Opsiwn 2, byddai'r taliad sy'n cael ei amcangyfrif ar hyn o bryd yn £140 i holl bensiynwyr y dyfodol yn cael ei aranu drwy ddod a'r Ail Bensiwn y Wladwriaeth, a Chredyd Cynilo i ben, a chyflwyno rheol cymhwyso lleiafswm saith mlynedd. Mae'r Llywodraeth yn eglur na fydd unrhyw adolygiad yn cynyddu gwariant cyhoeddus yn ymroddedig i bensiynau'r llywodraeth mewn unrhyw flwyddyn. Mae cynigion terfynol yn destun cadarnhad, yn cynnwys bod yn fforddiadwy, a bydd yn adlewyrchu Adroddiad Cynaliadwy Cyllidol sydd ar ei ffordd gan y Swyddfa am Gyfrifoldeb Cyllideb.

17. Rydym yn edrych am farn ar y ddau opsiwn hyn: pa mor dda maent yn ateb y problemau gyda'r system pensiynau'r wladwriaeth bresennol ar gyfer pensiynwyr y dyfodol, a pa mor bell maent yn cyfarfod egwyddorion y Llywodraeth – cyfrifoldeb personol, tegwch, symlrwydd, bod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y byddai trawsnewid i'r ddau opsiwn yn cymryd amser. Byddwn â diddordeb i drafod sut y gellir ateb hyn mewn ffordd y byddai yn gyson gyda'n egwyddorion. Rydym hefyd â diddordeb mewn unrhyw opsiwn arall i adolygu pensiwn y wladwriaeth sy'n cyfarfod yr egwyddorion.

18. O dan y cynigion hyn i gyd, bydd y Llywodraeth mewn amser, yn rhoi ystyriaeth os yw adolygiadau eu hangen i'r system cymorth prawf modd presennol i sicrhau fod y rhan hon o'r system yn dosbarthu ar yr egwyddorion am adolygu. Yn union fel rydym wedi cymryd camau i ad-drefnu'r system les i sicrhau fod gwaith yn talu drwy gyflwyno'r Credyd Cyffredinol, rydym angen sicrhau ei bod yn talu i gynilo tuag at ymddeoliad a bod cymhlethdodau yn y system bresennol yn lleihau lle mae'n bosibl. Mae manylion pellach wedi eu gosod allan ym Mhennod 3.

Peirianwaith oedran Pensiwn y Wladwriaeth

19. Mae Pensiwn y Wladwriaeth yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau fod pensiwn y wladwriaeth yn aros yn gynaliadwy a fforddiadwy – un o'r egwyddorion allweddol am adolygu pensiwn y wladwriaeth yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth wedi gweithredu'n sydyn i gymryd cynyddiadau diweddar mewn disgwyliad einioes i ystyried drwy osod cynigion i gynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth i 66 erbyn Ebrill 2020.

20. Ond ni fydd y cynyddiadau hyn mewn hir oes yn dod i ben erbyn 2020 ac nid yw ond yn deg y bydd y cenedlaethau hyn yn cael budd o'r cynyddiadau rhannu'r costau hyn. Byddai peidio a gweud hyn yn annheg ar bobl o oedran gweithio a fyddai'n gorfod cymryd y baich o'r cynnydd hyn mewn hir oes. Yn ychwanegol, mae buddion pwysig i'r economi ac unigolion o weithio'n hirach.

21. Mae'n rhaid i'r Llywodraeth barhau i ystyried oedran Pensiwn y Wladwriaeth, a'r cwestiwn nawr yw sut i adeiladu i system bensiynau'r wladwriaeth yn y dyfodol peirianwaith mwy awtomatig i sicrhau fod adolygiadau yn y dyfodol i ddisgwyliad einioes yn cael eu cymryd i ystyriaeth mewn ffordd sy'n amserol ac yn eglur.

22. Y ddau opsiwn yw:

- Cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth drwy fformiwla'n gysylltiedig â disgwyliad einioes.
- Cynyddu oedran Pensiwn y Wladwriaeth drwy adolygiad.

23. Mae manylion pellach yn cael eu gosod allan ym Mhennod 4.